

BATHAFARN BACH

CYLCHGRAWN HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD YNG NGHYMRU

Rhif 1 – Hydref 2011

Nodyn Golygyddol

Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o *Bathafarn: Cylchgrawn Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru* yn 1946. Y golygydd oedd yr hanesydd disglair A. H. Williams. Cyhoeddwyd y cylchgrawn yn flynyddol hyd 1973 ond er hynny mae wedi ymddangos yn achlysurol. Daeth cyfrol 32 o'r wasg yn 2003 ac mae'n debyg mai hon oedd y gyfrol olaf o'r cylchgrawn. Gyda'r dirywiad yn aelodaeth yr enwad ni dderbynnir digon o ddeunydd ac ni werthir digon o gopiau erbyn hyn i gyfiawnhau cyhoeddi cylchgrawn o'r math.

Wrth ystyried hyn oll teimlodd aelodau'r Pwyllgor Hanes fod angen cyhoeddiad arall i gofnodi ein hanes. Dyma yw pwrpas *Bathafarn Bach*. Rwy'n ddiolchgar iawn i Gwyndaf Roberts, golygydd y *Gwyllydydd*, am ei gymorth a'i gydweithrediad ac am gytuno i'w ddsbarthu gyda'n papur enwadol. Gobeithiaf y bydd y cynnwys o ddiddordeb ichi ac edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau ac erthyglau ar gyfer y rhifyn nesaf.

Gwilym R. Tilsley (Tilsli): emynydd a chyfieithydd

YR EMYNAU

Emynydd traddodiadol ei weledigaeth a'i arddull yw Tilsli (1911-97). Cyfleir yn ei emynau ddealltwriaeth o egwyddorion a hanfodion emyn. Canfyddir ynddynt hefyd ddisgyblaeth a gwir adnabyddiaeth o'r genadwri Gristionogol. Mae gan Tilsli ddawn feistraidd i fydryddu a thrin geiriau a thrwy hynny mynegir y gwrthgyferbynnu rhwng pechod dynol a pherffeithrwydd anfeidrol sy'n hanfodol i emyn, yn glir a dealladwy.

Un o elfennau hanfodol emyn yw'r briodas rhwng y geiriau a'r dôn ac afraid yw dweud fod emynau Tilsli yn ateb y gofyn yn hyn o beth.

Gadewch inni ystyried rhai o nodweddion un o emynau mwyaf grymus a meistrolgar Tilsli sef 'Ffordd y Ffydd' (*Caneuon Ffydd* 137). Priodir y geiriau â'r dôn 'Elwyn', gan M. Eddie Evans, enillydd cystadleuaeth yr emyn-dôn ar emyn o waith Tilsli yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1977. Y mae dechrau'r emyn yn adleisio Salm 75:3.

Ymddatododd y ddaear a'i holl drigolion: myfi sydd yn cynnal ei cholofnau.

Egyr â delwedd afaelgar o Dduw y cynhaliwr sy'n cynnal colofnau'r cread a thynged dynolryw yn ei law. Ymdeimlir â naws weddigar yr emyn sy'n erfyn am ras digwestiwn i dderbyn ansicrwydd tywyll y dyfodol.

Delweddau gwrthgyferbynniol o dywyllwch a dryswch ynghyd â gweddi am arweiniad i fyw yng ngoleuni gwerthoedd yr Efengyl yw neges yr ail bennill. Moliant a gorfoledd yw themâu'r trydydd pennill gyda defnydd o ansoddeiriau clodwiw a chryf megis 'cymod', 'trugaredd' a 'chyflawnder'. Cyffes y pechadur ynghyd ag ymbil gweddigar a gyfleir yng nghwpled clo yr emyn:

O rasol Arglwydd, tro'n calonnau ni
i geisio'r hedd a geir o Galfari.

Emyn wedi ei sylfaenu ar Epistol Cyntaf Paul at y Corinthiaid 13:13, yw cynnwys 'Am ffydd, nefol Dad, y deisyfwn' sydd hefyd wedi ei gynnwys fel emyn 792 yn *Caneuon Ffydd*. Ffydd, Gobaith, Cariad oedd teitl yr emyn pan gyhoeddwyd ef yn *Y Goleuad*, yn 1986. Comisiynwyd yr emyn ar gyfer cystadleuaeth cyfansoddi emyn-dôn yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl, 1985. Priodwyd yr emyn â thôn W. Llewelyn Edwards, 'Wybrnant'.

Deisyfiad am ffydd i wrthsefyll gwag bethau'r byd a chyfle i ennill ein lle yn 'arfaeth y ffydd' yw erfyniad cwpled gwrthgyferbyniol y pennil cyntaf. Defnyddir delweddau a geirfa'n ymwneud â rhyfel megis 'gelynyddion' 'arfaeth' a 'castell'. Â'r pennill rhagddo â'r Cristion yn ymdeimlo â'r gorfoledd a'r rhyddid a rydd y ddelwedd drosiadol 'castell y ffydd'.

Gobaith yr Efengyl yw canolbwynt yr ail bennill â'r erfyniad gweddigar am gadernid,

i fentro heb weled ymlaen;

Daw'r gyfeiriadaeth Feiblaidd sy'n tanlinellu sicrwydd ffydd y Cristion, o Efengyl Ioan 20:17, sef y cyfeiriad at y bedd gwag yn dilyn y Croeshoeliad. Meistrolgar yw'r cyfeiriad at gariad, canolbwynt y cyfanwaith, fel 'gogoniant pob rhinwedd a dawn'. Cyfleir yn feistrolgar gyfochredd 'gwynfyd' a 'dagrau' ynghyd â'r cwpled gobeithiol sy'n cloi'r emyn.

ein cysur drwy'n hoes mewn cystudd a loes
fydd cofio'r Gwarddwr a choncwest ei groes.

Fodd bynnag, efallai, mai yng ngweledigaeth y garol seml hon y daeth Tilsli ar ei thraws mewn hen ysgrif-lyfr o'i eiddo ynghyd â nodiadau ar ei chynnwys sy'n cyfleu cywirdeb a dyfnder argyhoeddiad ei ffydd Gristionogol ar ei orau.

Wele faban tlws ei wyneb
Rhwng cadachau yn y preseb,
Wele'i fam yn gwyllo drosto
Ac yn rhoddi moethau iddo.

Wele ddoethion, wedi'u harwain
O wyllt erwau pell y Dwyrain
Yma'n fud y plygant hwythau
Gan agoryd eu trysorau.

Wele fintai o fugeiliaid
Wedi ffoi o wyllo'u defaid;
Syn y safant, gan ryfeddu
Uwch y baban yn y beudy.

Pwy yw'r bychan hwn sy'n denu
Gwreng a bonedd i ryfeddu?
Ef yw Aer y Dwyfol Fawredd
Yn ei druan egwan agwedd.

Gwelwch fod y disgrifio wedi troi yn holi yn y pennill olaf a'r ffaith hanesyddol yn troi'n Athrawiaeth.

Dro arall nid y ffaith seml o gwbl sy'n taro dyn, ond yr Athrawiaeth sy'n rhoddi ystyr i'r ffaith, yr hyn a eilw diwinyddion yn 'Athrawiaeth yr ymgnawdoliad'; a ninnau yn edrych ar yr olygfa ym Methlehem trwy lygaid Credo yr Eglwys.

Rhyfeddod mawl ac addoliad yn dyfod yn naturiol i Gristion wrth fyfyrion ar enedigaeth Crist. Ond daw i'r Cristion ysgytiad hefyd yng ngoleuni cynryfiadau byd-eang gwelir bod neges heddwch y Nadolig yn dyfod i fyd llawn digofaint a rhyfel, a'r gwrthdrawiad rhwng ysbryd y byd ac ysbryd y Crist a ddaeth iddi [sic] (Detholiad o raglen fer a draddodwyd gan Tilsli ac a ddarllodedwyd gan BBC Cymru/ Wales 27 Rhagfyr 1953).

Y CYFIEITHIADAU

Fel yr eglura Tilsli yn ei erthygl ar gyfieithiad R. R. Williams o 'The Hymns of Ann Griffiths', a welir yn *Y Fflam* yn 1950 (9 Awst, 48-9):

Cwbl amhosib yw cyfleu mewn iaith arall rin a rhythmau
Cymraeg yr Emynau a ddaeth bellach yn rhan ohonom.

Mae hyn yn wir am bob cyfieithiad, wrth gwrs, fel y gwelir yng nghyfieithiad Tilsli o 'Emyn Cymun', Horatius Bonar, 'Here, O my Lord, I see Thee face to face' yn *Y Glöwr a Cherddi Eraill*.

Yn ogystal â chadw mor ffyddlon â phosib i'r gwreiddiol, hanfodol yw ceisio cyfleu awyrgylch, naws a chenadwri'r geiriau. Fodd bynnag, ni ellir osgoi aberthu cryn lawer weithiau os am ateb gofynion mesur, mydr ac odl. Mae Tilsli wedi llwyddo'n rhyfeddol yn hyn o beth, fel y dengys ei ddefnydd o iaith safonol a mynegiant clir a dealladwy, hanfodol i emyn. Er hynny, fe'i gorfodir i ddefnyddio geiriau llanw a newid trefn yr eirfa, o bryd i'w gilydd, ac o ganlyniad wyro ychydig oddi wrth graidd y weledigaeth wreiddiol megis:

Here, O my Lord, I see Thee face to face;
Here would I touch and handle things unseen;
Yma caf sylly ar dy wyneb Iôr,
Ac yma brofi rhiniau'r anwel fyd,

Cryfach ac mwy terfynol rywsut yw diwedd ail linell agoriadol y pedwerydd pennill:

I have no help but Thine; nor do I need
Another arm save Thine to lean upon:

Nid oes im gymorth arall ond Tydi,
Ni cheisiaf ond dy fraich i'm dal i'r lan.

Yn affodus, trwy hepgor yr ebychiad ar ddiwedd y pumed pennill

collir rhywfaint o angerdd fel y gwneir, yn wir, trwy ddileu'r gair 'cariad' o linell glo'r emyn.

Trosiad agos at y gwreiddiol yw cyfieithiad Tilsli o emyn mawreddog a phoblogaidd Charles Wesley, 'Love Divine, All Loves Excelling'. Nid yn unig gwelir ynddo ffyddlondeb i weledigaeth ac athrawiaeth Charles Wesley, ond fe ymdeimlir, mwy neu lai, â'r naws o ddiwylledd a gorfoledd a ddengys Charles Wesley yn y gwreiddiol.

Mae'r emyn yn seiliedig ar Efengyl Ioan, yn arbennig y geiriau, 'Cariad yw Duw'. Awgrymir fod adlais o John Dryden, 'Fairest Isle, all isles excelling', a genir yn opera Purcell, *King Arthur* (1691), i'w glywed yn yr emyn. Roedd i'r cyfansoddiad bedwar pennill yn wreiddiol, ond er iddo gael ei gyhoeddi yng nghasgliad emynau'r Wesleaid yn 1780, y mae'r ail bennill 'Breathe o breathe Thy loving Spirit', wedi ei gadael allan o'r emyn. Gwelwyd cyfieithiad cyntaf Tilsli o'r emyn nerthol hwn yn *Grym Mawl* (1991).

Ni ellir barnu cywirdeb llythrennol cwpled agoriadol y gosodiad, fodd bynnag, barnaf fod urddas, cryfder a melyster seiniau geirfa'r gwreiddiol yn rhagori ar y cyfieithiad. Fel y dengys 'Jesu, Lover of my Soul', un arall o emynau grymus Charles Wesley, pryd y cyfleir yn fedrus a threiddgar y berthynas gyfrin rhyngddo a'i Arglwydd. Hanfodol, felly, yw mynegi dwyster ac argyhoeddiad y berthynas honno fel y gwneir yn emynau W. Rhys Nicholas dyweder.

Love divine, all loves excelling,
Joy of heaven, to earth come down,

Gariad dwyfol uwch pob cariad,
londer nefoedd tyrd i lawr,

Ni chyfleir yr un naws â'r gwreiddiol gyda rhai geiriau ac ymadroddion. Gwan a digyffro braidd yw 'esmwytháu', o'i gymharu â 'trembling', 'morio' â 'glory', ynghyd â'r ymadrodd 'cariad cry', sydd a'i hanfod yn crwydro ymhell oddi wrth y gwreiddiol, 'perfect love'.

Er gwaethaf y mân wendidau dyma gyfieithiad clir a chanmoladwy ar y cyfan â defnydd o iaith safonol, mynegiant clir ynghyd â mesur bywiog sydd yn cyfateb i'r amseru bywiog o orfoledd a geir yn emyn Charles Wesley.

Trosiad o gerdd 'The Nativity', C. S. Lewis yw 'Y Geni' a ymdangosodd yn *Yr Eurgrawn*, 1967. Gweledigaeth seml a gwahanol i'r cyffredin a adlewyrchir ynddi. Cedwir yn glòs at y naws o ryfeddod a gostyngeddwydd sy'n nodweddu'r cyfanwaith. Er bod rhaid aberthu yma a thraw, trwy gynnwys ambell air llanw megis 'preseb cul', trosi 'dullness' yn 'ufudd-dod' a hepgor 'wooly' yn gyfangwbl, llwydda Tilsli'n rhyfeddol i gyfleu'r weledigaeth gynnil a phellgyrhaeddol hon.

Tasg anodd yw cyfleu gweledigaeth bardd mewn iaith wahanol i'r gwreiddiol. Fel yr eglura'r bardd Americanaidd Robert Frost:

Poetry is what is lost in translation. It is also what is lost in interpretation.

Felly, yng ngoleuni'r ymadrodd hwn, trosiad glân sy'n cadw'n ffyddlon i'r gwreiddiol yw 'Cennin Pedr', (cyfieithiad o 'The Inward Eye' gan William Wordsworth), a welir yn *Y Glôwr a Cherddi Eraill*. Yn ogystal â'r defnydd o iaith safonol a mynegiant clir cedwir yr awrygylch o ryfeddod a llawenydd a adlewyrchir yn y gerdd. Efallai, mai er mwyn ateb gofynion y mesur a'r mynegiant y newidiwyd trefn rhai llinellau ar ddechrau'r ail bennill. Sylwer ar y cwpled:

I gazed and gazed but little thought
What wealth the show to me had brought;

Syllais, ond heb ddyfalu dim
Mor werthfawr oedd y darlun im.

Trwy osgoi ailadrodd 'syllais', collir rhywfaint o'r awrygylch a'r naws o ryfeddod a ddengys y gwreiddiol. At hynny, barnaf fod 'wealth' yn gryfach ei effaith na'r argraff a rydd yr ansoddair 'werthfawr', sydd yn cyfleu cyffredinedd naws a mynegiant.

Ni chyfleir yr un ymateb yng nghwpled agoriadol pennill olaf y trosiad â'r hyn a fynegir gan Wordsworth. Yn fy marn i, gwell fyddai cynnwys 'daffodils', er gwaethaf ei Seisnigrwydd, na defnyddio enw cyffredin megis 'blodau', i gloi. Dengys y cyfanwaith, fodd bynnag, fardd-gyfieithydd celfydd a meistrolgar wrth ei waith.

ELERI HUGHES

Gan ein bod yn dathlu canmlwyddiant geni Tilsli eleni braf yw cynnwys yr erthygl hon gan Eleri Hughes a seilir ar bennod yn ei thraethawd ymchwil ar gyfer gradd M.A. ym Mhrifysgol Bangor yn 2010.

Y Parchedig John Rowland Esaias

Ganed ef yn Morris Run, Swydd Tioga, Pennsylvania, 22 Mawrth 1886. Yr oedd ei dad, Richard Esaias yn hanu o Cwm-bach, Caerfyrddin. Ymfudodd i'r America pan oedd yn ddeng mlwydd oed. Un o Lansawel, Caerfyrddin, oedd ei fam, Jane Lloyd Jones. Ymfudodd hithau pan oedd yn ddeunaw mlwydd oed. Gadawodd ei daid a nain Llansawel i ymuno â mintai o Gymry oedd yn ymfudo i Batagonia, gan adael ei fam yng ngofal Mary Lloyd, ei fodryb. Symudont i Nova Scotia, Canada, ymhen rhai blynedd-oedd wedyn, ac i'r Unol Daleithiau ar ôl hynny. Yr oedd perthynasau i John Rowland yn byw yn Mynyddcynffig, Penybont-ar Ogwr, gan gynnwys cefnder i'w dad, Esaias Esaias.

Derbyniodd ei addysg yng Ngholeg Asbury, Wilmore, Kentucky. Treuliodd dri haf colegol yn weinidog ar yr Eglwys Gynulleidfaol Gymraeg Charlestown ger Wellsboro, yn ei sir enedigol. O Goleg Asbury aeth i ddilyn cwrs i'r Ysgol Ddiwinyddol ym Mhrifysgol Boston, Massachusetts. Bu am gyfnod ar ôl hynny yn weinidog 'supply' ar un o eglwysi Beverly, Massachusetts, ac yna Eglwys Gorsuch yn Washington D.C.



Coleg Asbury, Wilmore, Kentucky

Ar 15 Medi 1915 priododd ag Ethel O'Neal, myfyrwraig a gyfarfu yng Ngholeg Asbury. Hanai Ethel o Morrilton, Arkansas. Cyn ei ymdeoliad ym mis Mehefin 1954 bu John Rowland Esaias yn weinidog cynorthwyol ar Eglwys Fethodistaidd Peachtree Road, Atlanta, Georgia.

Siaradai Gymraeg rhagorol ac yr oedd ei lyfrgell bersonol yn cynnwys nifer o gyfrolau Cymraeg. Talodd ymweliad â Chymru yn 1956 a galwodd ym Mhrifysgol Aberystwyth lle y daeth i gysylltiad â Dr Davies, ceidwad y llawysgrifau hynafol y pryd hynny. Bu'r ddau wrthi'n chwilio i hen gofnodion, a daethont ar draws ewylls un o'i hynafiaid, gyda'r cofnod a ganlyn ynghyd ac ef: "I, William Esaias, bequeth to my honored and respected father, Esaias Williams, on November 4, 1667..." O'r dyddiad hwnnw bathwyd y cyfenw Esaias yn lle Williams. Yr oedd John Rowland mor falch o'r enw newydd, enw Beiblaidd amlwg. (Ym Meibl Douay, cyfieithiad yr Eglwys Gatholig, Isaias yw'r sillafiad. Ond os darllenir adnod 23 ym mhennod gyntaf Efengyl Ioan, ceir yr enw wedi ei sillafu Esaias.)

Pan anwyd ail fab John Rowland ac Ethel Esaias, bu ei briod yn wael gyda'r darfodedigaeth, ac yn dilyn pum mlynedd o'r afiechyd hwnnw bu hi farw. Ail-briododd yntau yn ystod yr Ail Ryfel Byd gyda Martha Spratling Rainey, gwraig weddw o Macon, Georgia. Cyhoeddodd lyfr, *Prayers and Help for Everyday Life* ac ymdangosodd pump argraffiad ohono. Cafodd ei ddyrchafu yn gyrnol yng ngwasanaeth Caplan Byddin yr Unol Daleithiau. Rhwng y ddwy Ryfel Byd bu'n weinidog ar Eglwys Coffa His, Baltimore, Maryland. Bu farw yn Awst 1975, yn 89 mlwydd oed.

Ganwyd dau blentyn o'r wraig gyntaf, ac yr oedd un mab gan ei ail wraig eisioes. Un o'r meibion hynny oedd y Parch. John Esaias (1920-1998). Bu'n weinidog gyda'r Eglwys Fethodistaidd yn College Park, Glen Burnie ac Oxon Hill, Maryland; Efrog Newydd;

Basking Ridge, New Jersey; Spottsville, Virginia; ac Eglwys Fethodistaidd Grace, Hartwood, Virginia. Gwasanaethodd fel caplan yn y llynges yn yr Ail Ryfel Byd. Yr oedd yn briod am 52 o flynyddoedd â Ruth Ann Dodsworth, Tacoma, Washington. Ganwyd iddynt dri o blant. Yr oedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Gymraeg Fredericksburg, Virginia. Bu farw 16 Rhagfyr 1998.

W. ARVON ROBERTS

Egwisyn (1823-1878)

Yn hanes ystadegol Wesleyaeth Gymraeg o'r dechreuad i 1980 y mae Eric Edwards yn rhestru agos iawn i bum cant o bregethwyr a dderbyniwyd i'r weinidogaeth. O'r rheini y mae hanner cant a phump yn dwyn y byrfodd 'enc', sef yng ngeiriau'r golygydd, 'encilio, o ddewis y gweinidog ei hun neu oherwydd i'r Gynhadledd, am achos arbennig, ofyn iddo adael y Weinidogaeth.' Weithiau y mae'r rheswm yn anffodus o eglur, fel yn achos y gweinidog a rwyddwyd gan ynadon Merthyr yn 1870 i dalu hanner coron yr wythnos tuag at blentyn geneth o Ddowlais. Ar brydiau y mae'r un gwendid yn y cnawd yn cael ei ddilyn gan oes o wasanaeth arbennig fel llyegwr (John Bryan); dro arall fe gollwyd rhywun o doniau gwirioneddol, fel yn Nhregarth yn 1907. Ond yn ychwanegol at resymau moesol, diau fod nifer o ystyriaethau eraill: anhawsterau athrawiaethol, apêl enwad arall (fel y bu ond y dim i ddigwydd yn achos Tecwyn Evans yn 1919), amharodwydd i symyd i fan arbennig, problemau ariannol, ac yn y blaen.

Ond beth oedd y rheswm dros enciliad y gweinidog a bardd Rowland Whittington (Egwisyn)? Yn wir, pwy oedd Egwisyn? Dyna oedd pwnc ymholiad yn *Y Casglwr* 27 (1985) ac fe gafwyd atebion gan Alun Jones yn rhifyn 28, ac un llawnach gan Huw Walters 30 (1986). Ag eithrio un cyfeiriad yn *Welsh Wesleyan Methodism* A. H. Williams, paragraff yn 'Bywyd a gwaith Lot Hughes' gan E. H. Griffiths yn *Bathafarn* 29 (1977-86), ac ambell frawddeg yma ac acw, dyna'r cyfan a gyhoeddwyd am ŵr gweddol adnabyddus ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond a ddiflanodd wedyn, heb i neb wybod sut na phryd y bu farw. Erbyn heddiw, i fesur gyda chymorth y we, y mae modd olrhain ei hanes cryn dipyn yn llawnach.

Enw cyfarwydd yn ardal y Cemais, Maldwyn, yw Rowland Whittington, gofaint a thafarnwyr gan fwyaf. Yn nhŷ y Rowland a anwyd tua 1689 ac a fu farw yn 1750 y bu Howel Harris o flaen yr ynadon ym mis Chwefror 1740. Magodd yr ail Rowland Whittington (1717-1785) deulu o Fethodistiaid. Ei fab hynaf oedd y Rowland (1751-1830) arwyddodd y cais am gofrestru capel yn 1810, ac fe roedd i hwnw ail fab Rowland, a fedyddiwyd 26 Ionawr 1781. (Mab iddo yntau, a'i wraig Jane, Edwards gynt, oedd yn ôl pob tebyg y Rowland a fedyddiwyd yn Llanwrin ar 7 Ebrill 1816.) Ond beth am ein Rowland ni? O hyn ymlaen y mae angen peth dyfalu.

Yn adroddiad *Y Genedl* yn 1878 fe ddywedir am Egwisyn: 'Deallwn mai brodor ydoedd o Penegoes, llan fechan rhyw ddwy filldir o Machynlleth, ar ffordd y Dinas. Enw ei dad oedd John Whittington, yr hwn oedd yn glochudd eglwys Penegoes, a bu Person y plwyf yn garedig iddo, a gofalus ohono yn mlynnyddoedd cyntaf ei fywyd.' Cadarnhad o'r berthynas â Phenegoes yw'r ffaith fod Egwisyn wedi ysgrifennu hanes yr achos yn *Eurgrawn Awst* a Medi 1858 (Cyf. 50, 268-70 a 308-11) gan enwi ei hun fel un o'r pregethwyr a godwyd yno. Nid yw'n glir pa bryd yr ymsefydlodd un gangen o'r llwyth ym Mhenegoes, ond roedd un John Whittington yn byw yno yn 1758 pan briododd Ann Owens o Darowen; ganwyd mab, John arall, yn 1765 – ai taid Egwisyn oedd hwn ?

Yn ôl cyfrifiad 1861, 35 yw oed Egwisyn, a 44 yn 1871; blwyddyn ei eni, felly, fyddai 1826/7. Ond, os gwir ei fod yn 56 pan yn marw yn 1878, 1822 fyddai'n gywir. Gellir dyfalu er hynny mai ef yw'r Rowland Whittington pymtheg oed sydd wedi gadael cartref i fynd yn was fferm yn Fronfraith, Darowen yng nghyfrifiad 1841. Teulu'r clochudd gartref yn Tainewyddion, Penegoes, oedd John (45, ond 59 yn 1851), Mary 30, a phedwar o blant. Y mae mymryn o anhawster, sef mai cwta pymtheg oed oedd Mary yn 1826. Ond dichon mai ail wraig oedd hi, gan fod rhyw John Whittington wedi priodi Anne Williams ym Machynlleth ar 20 Mai 1820. (Yn ei ysgrif dywed Egwisyn fod brawd ei fam yn flaenor ym Machynlleth: Evan neu Edward Williams?) Yn ôl E. H. Griffiths, brodyr i Egwisyn oedd Edward, swyddog yn St Paul's, Aber-

ystwyth, wedyn, a William, Penygraig, Cwm Rhondda. Dyddiadau geni Edward, yn ôl cyfrifiadau 1851 i 1891 oedd oddeutu 1821, 1823, 1822, 1822 ac 1821, a'r fan bob tro oedd Machynlleth. Bedyddiwyd ryw Edward Whittington, mab John ac Anne, ym Machynlleth ar 17 Chwefror 1822. Blwyddyn geni William oedd tua 1824, Penegoes, yng nghyfrifiad 1881, a thua 1829, Machynlleth, yn 1891. Bedyddiwyd William ym Machynlleth ar 20 Medi 1829, fab John ac Anne. Bedyddiwyd Rowland, fab John ac Anne, ar 21 Rhagfyr 1823. Bu'r tad, John, farw yn 1853.

Cymhlethdod gogleisiol yw'r John Whittington, gof 45 oed yn briod ag Ann arall, ond Evans cyn priodi, yn byw yn 1841 yn 26 High Street, Gwern-y-bwlch (Cemais). Yr oedd ganddynt dri o blant, wedi eu geni yng Nghemais: Rowland, 15 (ond 26 yn 1851 ac yn of) John 11 ac Ann 6. Dichon mai'r Rowland hwn oedd y gof 55 oed yn 1880, wedi ei eni yng Nghymru fel ei wraig Mary (39) ac yn byw yn Gomer, Sugar Creek, Ohio. Hwn, ond odid, oedd y 'brawd' yr oedd Egwisyn am fynd i'w weld yn y dalaith honno.

Dechreuodd Rowland (Egwisyn) bregethu yn Nhref-ddôl a'r Borth ym mis Awst 1844. Y mae'r *Dyddiadur Wesleyaidd* 1848 yn ei restru'n bregethwr llyeg yn Y Borth, cylchdaith Aberystwyth, ac fe'i derbyniwyd i'r weinidogaeth yn Synod Talaith y Gogledd yng Nghaernarfon yn 1854, a'i ordeinio yng Nghynhadledd Hull yn 1858. Yr un flwyddyn ym Machynlleth fe briododd Gwen (c1835-1892), Winifred yn y cofnod priodas, merch Evan Vaughan, saer coed yn Nhywyn, Meirionnydd, a'i wraig Ann. Cafodd Rowland a Gwen bump o blant: Anne Maria (g. 1859) nyrs plant yn Lambeth yn 1881, cyn priodi saer, Alfred Ernest Whicher, yn Llundain yn 1885; Gwen Hellena (g.? 1863) oedd yn gweithio fel morwyn fach ym Machynlleth yn 1881; Margaret Mary Jane (g. 1865) gwniadwraig yn Harrow yn 1901 gyda nith May (g. Tywyn 1894), ddaeth yn Lilian May ac yn ferch iddi erbyn 1911; Eliza Catherine (g. 1868); ac Evan Vaughan (1871-76), testun un o gerddi Egwisyn.

Gwasanaethodd Rowland, yn eithaf cymeradwy fe ymddengys, gylchdeithiau Abermaw 1854-5, Dolgellau 1856-7, Rhuthun 1858-9, a Threfynnnon 1859-60, gan ddarlithio yma a thraw, llywyddu a beirniadu mewn mân eisteddfodau, a chynnal ambell gyfarfod pregethu. Cyfrannai erthyglau a cherddi i'r cylchgronau, ac yn 1858 yn Nolgellau cyhoeddodd draethawd *Y Gwrthryfel yn India*, er mai trosiad o erthygl gan William Arthur yn y *London Quarterly Review*, Hydref 1857, yw hwnnw. Yna, yn 1860, y mae'n diflannu o restr Sefydliadau'r Gweinidogion ac, yn ôl *Minutes of Conference* 1862, roedd o'n un o bump o weinidogion Wesle a ddiarddelwyd rhwng 1858 a 1860. Beth oedd wedi mynd o le?

Sylwodd Huw Walters ar atgofion sy'n awgrymu'n ddiddorol y gall fod dadleuon cyfundebol Wesleaeth ganol y ganrif yn gyfrifol. Dyfynna o ysgrif gan Lewis Jones, Y Rhyl, yn *Y Llan* yn 1929, lle y dywedir i Egwisyn olynu Hugh Williams (Cadfan) fel golygydd *Y Dywysogaeth* yn 1870. 'Am ryw nifer fechan o fisoedd', meddai'r erthygl, 'y bu ef ynglŷn â'r gorchwyl. Buasai yn weinidog Wesleyaidd, ond yn helynt y fly-sheets aeth yn un o'r Wesle Bach, a bu yn gweinidogaethu i gynulleidfa yn Aberystwyth am amser. Digon helbulus fu ei fywyd wedi hynny. Y tro diwethaf y gwelais ef areithiai ar ddirwest ar lawnt, gerllaw neuadd y dref. Wedi i'r het fynd o gwmpas, aethom i gael sgwrs dros wydraid o gwrw bob un.'

Efallai mai'r frawddeg olaf yw'r bwysicaf. Nid yw'r awgrym am y Wesle Bach yn dal dŵr, gan fod Egwisyn yn elyn iddynt ac yn aml dan y lach yn eu cylchgrawn *Gedeon* (gweler A. H. Williams, 264). Diau fod peth afreoluswydd yn ei arferion personol, ac nid yw'n amhosibl mai'r ddioid oedd wrth wraidd ei broblemau. Cofier, er hynny, mai rhywbeth newydd oedd y mudiad dirwest yn yr 1850au, ac erbyn 1873 roedd Egwisyn yn destun cymeradwyaeth am ei gefnogaeth i'r Ttemplwyr Da. Haws meddwl mai ychwanegiad at ei ymddygiad tuag at awdurdod oedd unrhyw afterwch yn ei fywyd. Yn yr ysgrif goffa yn *Y Genedl* y mae'r cofiannydd yn galw Egwisyn ei hun yn dyst:

Buan yr aeth o dan gwmwl, a beiai yn dost ar y Parch. T. Aubrey, a dynion blaenllaw eraill yn y cyfundeb. Nis gwyddom ni ddim am yr amgylchiadau, fel nas gallwn roi barn arnynt. Ystyriai ei fod wedi cael cam pan y buom yn siarad ddiweddfaf ag ef, er y condemniai ei hun am droion byrbwyll ac annoeth.

Nid peth call oedd croesi Thomas Aubrey, ond fe geir syniad o agwedd Egwisyn at bwysigion y cyfundeb mewn crafiad o'i eiddo yn hanes yr achos ym Mhenegoes yn *Eurgrawn* 1858: 'Daeth rhyw

bregethwr taranlyd o swydd Gaernarfon, heb fod yn mhell o Benmaenmawr, i bregethu i Benegos, a phregethodd yn awchlym, yn ei ffordd hynod ef, yn erbyn yr Eglwys Wladol. Digiodd rhai o'r ardalyddion yn erwin wrtho ef a'r capel, fel y gadawsant y Wesleyaid yn llwyr, ac yr aethant ymaith i fynwes yr hen fam. (Nid hynyna oedd yr holl niwaid a wnaeth *efe* i'n hachos ni, fel y mae gwaethaf y modd.) Arolygwr cylchdaith Bangor, a gynhwysai Benmaen-mawr, o 1852 i 55 ac yna o 1857 i 60 oedd Thomas Aubrey. Ei gyd-lafurwr ar y gylchdaith oedd Methuselah Thomas, a gwerth dyfynnu ychydig amdano o gofiant Thomas Aubrey gan Samuel Davies (Bangor 1887, tt. cclxxiii-cclxxiv). Wedi crybwyll dylanwad Methuselah Thomas ar Aubrey, fe'i disgrifir fel

pregethwr grymus, tanlyd – ei weinidogaeth yn tueddu i gyffroi a dychrynu...Yr oedd yn ŵr o dymherau cryfion, ac nid bob amser yn eu llywodraethu mewn ffordd fanteisiol iddo ei hun. Safai yn gadarn dros awdurdod ei swydd fel Arolygwr, a phan y clywai fod ambell un yn cwyno yn erbyn ei weinyddiadau, neu yn gwrthod cydsynio â, neu weithredu yn ôl ei gyfarwyddiadau, ei hoff air fyddai, "Ho, mi settla i o."

Tybed ai rhyngddynt y 'setlwyd' Rowland Whittington?

Ar i lawr, gwaetha'r modd, yr oedd hi yn hanes Egwisyn ar ôl gorfod troi cefn ar y weinidogaeth. Bu am ysbaid gyda'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr. Yn *Y Faner*, 13 Mehefin 1861, nodir ei fod 'wedi ei benodi yn gynorthwywr llyngol, neu Scripture Reader, mewn cysylltiad â'r Eglwys Sefydledig, o dan ficer y lle uchod [Cwmafon]. Y mae i ddechrau ar ei orchwyl yn ddioed.' Ond yr oedd eisoes ar 7 Ebrill, diwrnod cyfrifiad 1861, yn lletya yn Llanfihangel-ynys-Afan (Michaelston super Avon) fel 'Church of England lay assistant'. Drws nesaf, fwy neu lai, yng Nglyn Nedd, roedd perthynas, mae'n debyg, o'r enw Mary Whittington yn bostfeistres, yn cadw siop bapur newydd ac yn gwneud ychydig o gyhoeddi lleol.

Roedd Gwen a'r ferch fach Anne Maria yn byw yn Nhywyn gyda'r taid a nain. Rhyw grafu byw y bu hi, mae'n amlwg, ac erbyn 1871 fe'u cawn i gyd yn byw yno – Egwisyn yn 'clerk – canvasser'. (Ond dywedir hefyd y bu i bob capel arall yn Nhywyn gau pan oedd Egwisyn yn pregethu.) Dros y blynyddoedd fe geir cipolwg arno mewn gwahanol fannau yng Nghymru; gellir ei leoli yn Ystrad Rhondda yn 1866, ac Aberystwyth yn 1867 a 68, ac ym Mai 1870 y mae gohebydd yn *Y Faner* (21 Mai) yn dweud fod Egwisyn, yn ei eiriau ei hun, wedi crwydro ar hyd a lled y byd 'ond erbyn hyn yn cael ei rifo ym mysg trigolion ein tref ninnau', sef Y Rhyl. Nid oes dyddiad ar y llyfryn *Barddoniaeth gan Egwisyn* a argraphwyd gan D. W. Davies, Caernarfon, ond tybir mai 1876 oedd y flwyddyn ac yno y cawn yr olwg olaf arno yng Nghymru: 'Y mae Egwisyn, yr hwn, ychydig amser yn ôl, a adawodd dref Caernarfon fymryn yn annisgwyladwy, yn traddodi darlithiau i Gymry yr America, ac yn cyhoeddi *Adgofion* am yr Hen Wlad.' (*Baner*, 29 Gorffennaf 1876). Y mae'r naws goeglyd yn yr ymadrodd 'fymryn yn annisgwyladwy' braidd yn awgrymu trafferthion – ai y beili, tybed ?

Cyn inni adael Cymru fe fydd yn briodol dweud gair am Egwisyn y llenor. Cyfranodd lawer i wahanol gyfnodolion, ac fel llythyrwr roedd yn ddigymrodedd ac yn gallu tanio ergydion eithaf dinistriol, gweler ei amddiffyniad o Demlyddiaeth Dda mewn cweryl a barhaodd yn *Y Faner* o Orffennaf i Fedi 1873. Ond y mae'r duedd i orddweud ac i frolio ei hun yn dod i'r amlwg hefyd yn ei ymateb croendenau i feirniadaeth eithaf diniwed ar un o'i delynegion (*Y Faner*, 16 Tachwedd 1872). Fe fyddai gofyn bod yn garedig iawn, er hynny, i ganmol llawer ar ei farddoniaeth. Y brif gerdd yn *Barddoniaeth* yw 'Y Cedyrn Cyntaf. Sef, Gair neu ddau o goffadwriaeth barchus am luaws o'r Gweinidogion Wesleyaidd Cymreig', carlam ddeugain pennill pur ddieneiniad drwy ddau ar bymtheg o gewri o Owen Davies i Rowland Hughes. Nid yw'r un ar Edward Jones, Bathafarn, na gwell na gwaeth na'r rhelyw:

EDWARD JONES, hoff fab Bathafarn,
A'r lesu yn ei gyne gol;
'Roedd ei weinidogaeth nerthol
'N denu miloedd ar ei ôl:
Wrth draddodi'r genhadwri,
lawn tros bawb o ddynolryw,
Bloeddiat yn yr hwyliau uchaf,
"Haleliwiah!" "Mawl i Dduw!"

Hwyliodd Rowland Whittington o Glasgow am Efrog Newydd ar 24 Mai 1876 ar y *Bolivia*, heb ei deulu, ac yn ei ddisgrifio'i hun fel 'asiant', 50 oed. O hyn ymlaen yr unig dystiolaeth yw'r adroddiadau 'Egwisyn yn ei Fedd' yn *Y Genedl* (7 Mawrth 1878), a 'Marwolaeth Egwisyn, o'r *Drych Americanaidd* yn *Y Faner* (15 Mawrth 1878). O'u gwau at ei gilydd daw'r patrwm trist i'r amlwg. Dyma'r *Faner*:

Symmudodd i'r wlad hon o Gaernarfon, yn mis Mai, 1876, a daeth ar ei union i Utica. Cafodd dderbyniad gwresog gan y Cymry, ac yr oedd pawb yn barod i wneyd cymmwynas iddo, o herwydd ei athrylith fel llenor, bardd, a hen bregethwr doniol. Dywedai ei fod ar ei daith i Ohio, at ei berthynasau, a bwriadai draddodi darlithiau drwy y sefydliadau Cymreig, ysgrifenu i'r *Drych*, &c...; ac wedi gorffen ei deithiau, arfaethai ddychwelyd i Gymru at ei deulu. Darparwyd darlithiau iddo yn y cylchoedd hyn, a chafodd ddigon o arian i gychwyn yn drefnus i'w daith, a chymeradwyaeth fel darlithiwr. Yr oedd y Cymry oll yn ewyllysio yn dda iddo, a chafodd ei letty a'i ymborth am ddim tra y bu yma; ac o herwydd ei fod yn gyfyng ei amgylchiadau, talwyd iddo am yr erthyglau a ysgrifennodd i'r *Drych*. Yr oeddym mewn gobaith y buasai y cychwyniad a gafodd, a'r cyhoedduswydd a roddwyd iddo, yn ei symbylu i gario ei anturiaeth allan i lwyddiant ac elw. Ond rhyw fodd neu gilydd, aeth i ddistawrwydd, ac anaml y byddem yn clywed gair oddi wrtho. Y mae yn ymddangos yn awr iddo ddiweddu ei yrfa ddaearol cyn cyrhaedd at ei frawd yn Ohio.

A'r *Genedl*:

Newidiodd ei enwad amryw weithiau – aeth at yr Annibynwyr, wedi hynny at y Bedyddwyr ac Eglwys Loegr; a phan welsom ef gyntaf yn y wlad hon, yn Irwin Station, yr oedd ganddo drwydded fel aelod gyda'r Wesleyaid, a gosodai ei hun fel darlithiwr yn unig. Ond ymunodd wedi hynny a'r Bedyddwyr. Ni pherthyn i ni fnyed i ryw fanylion yn nglyn a'i hanes a'i gymeriad. Gwell genym gymeryd yr olwg dyneraf arno. Edrychem arno fel dyn hynod wan ei benderfyniad, a'i natur wedi ei nychu a'i llethu trwy ryw ddylanwadau tra anffafriol. Daeth atom, yn fuan wedi iddo ddyfod i'r wlad hon, rhyw flwyddyn a haner yn ol, a chyfaddefai ei fod wedi cael blynyddoedd o ddryghinoedd. Disgwyliai, trwy gael gorffwys gyda chyfeillion caredig, a pherthynasau oedd ganddo, y buasai yn ymhybu, ond nid felly bu.

Yna'r diwedd:

Boreu Sabboth diweddfaf (Chwefror 10), caed Egwisyn... yn farw yn ei wely yn un o ystafelloedd y City Farm [elusendy], ger y ddinas hon (Pittsburgh). Gorwedda'i yn ei gwrcwd fel yr arferai wneyd o dan boenau yn ei ymysgaroedd, a diffyg anadl, a mygodd felly heb i neb wybod yn iawn yr adeg. Gelwid arno at ei foreubryd, ond yr oedd wedi oeri yn yr angyr er's meityn. Mor gynted y daeth y newydd i'r ddinas, aeth Mr R. T. Daniels, o swyddfa y *Wasg*, yn union yno, a gydag ef Meistri H. J. Thomas, a T. W. Parry, a chawsant ef yn ei arch, ac i gael ei gladdu am bedwar o'r gloch brydnawn Llun. Gwnaethant bob ymholiad am ei amgylchiadau, ac ni chawsant fod dim ar ei ol, druan, ond ychydig fan baprau, a rhyw daclau bychain diwerth. Nid oedd modd braidd i neb fod yn dylotach wrth adael y byd...Dyma ei yrfa gymysglyd a gofidus wedi d'od i'r pen.

GLYN TEGAI HUGHES

BATHAFARN BACH

Rhif 1 – Hydref 2011

© y cyfranwyr unigol

Cyhoeddwr:

Y Gymdeithas Hanes, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd

Golygydd:

Dr Lionel Madden, Hafren, Cae'r Gog, Aberystwyth SY23 1ET
ffôn: 01970 617771 e-bost: madden.aber@btinternet.com

Cyhoeddir yn achlysurol i'w ddosbarthu gyda'r Gwyllyedydd

Argraffwyr: Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286 672018)

